Autumn/Winter 24 | Edition 06

# AIC Cymru

WORKING IN SUPPORT OF **MODERN SUSTAINABLE COMMERCIAL AGRICULTURE**



## Welcome

**Dear AIC Members,**

**Welcome to the Autumn/Winter 2024 edition of AIC Cymru Journal, bringing you key updates on the issues, policies and insights specific to Welsh agriculture.**

As we rapidly near the tail end of 2024, much within Welsh agricultural, environmental and climate change policy remains without clarity.

Following the summer's UK General Election the political landscape has shifted. The Labour Party remains dominant in Wales, but new faces are in place, so never has there been a greater need for AIC Members to engage with their local MPs, sharing the vital role that the agri-supply industry plays in the rural economy and the economic multiplier effect it has. Please get in touch to discuss this further.

In this issue you will find updates on political changes in Wales, policy developments, events, and AIC Cymru activities.



**Michael Muncey**
AIC Cymru Policy Manager

# Latest Wales policy developments

**Change has been the theme of Welsh politics. While the Labour Party is still the dominant force in Wales following the UK General Election, the First Minister Vaughan Gething MS resigned after four months in office, being replaced by Eluned Morgan MS, the first female First Minister for Wales.**

Huw Irranca-Davies MS remains the Rural Affairs and Climate Change Cabinet Secretary but additionally now holds the position of Deputy First Minister.

Activity on the Sustainable Farming Scheme (SFS) continues at pace behind the scenes. Huw Irranca-Davies MS actively chairs the now smaller roundtable stakeholder group, of which AIC Cymru is a member. Evidence gathering for carbon sequestration modelling on opportunities not just focused on tree planting should be concluded and put to the roundtable in October.

The outcome of the Welsh agriculture budget negotiations with the new Westminster Government should be known by December, meaning we approach a critical period of what are the schemes new developments, extent of Universal actions, and what farming unions might accept once a budget financial package as to how this policy is to be financed are known.

The agriculture allocation makes up only 2% of the total Welsh Government budget. This has effectively been frozen since the UK's withdrawal from the EU given recent inflation figures the budget should be in the region of £500 million.


*Continued on page 2*

In a written statement to the Senedd on 20 September, Huw Irranca-Davies MS said: "During the summer recess, officials and I have been working with the Ministerial roundtable, the Carbon Sequestration Panel and through the Official's Group to review the design of the Scheme.

"The groups have met a total of 19 times to date within a short space of time. The groups' focus so far has been on actively reviewing all of the Universal Actions and key Scheme Rules, taking into account feedback received from the latest consultation.

"With the support of the Roundtable, we have already published the response to the consultation and the revised position on payment for Sites of Special Scientific Interest (SSSI) areas within the Universal Baseline Payment. The development of the SSSI proposal is a good example of how we are working effectively as a group to develop a revised position.

"I expect to return to the Senedd later this year with a more detailed update. I would like to thank all stakeholders for their time in contributing to the process over the Summer, and into the coming months."



# SFS Data Confirmation: Wales

**The Welsh Government started its "Data Confirmation" exercise on 22 July which will run until 6 December. This allows farmers to update the mapping information held. This especially relates to the habitat and tree areas on farm, ahead of the introduction of the SFS in 2026, when the requirement for 10% tree cover will be introduced.**

It is also relevant to the Habitat Wales Scheme (HWS) which will operate again in 2025 as an interim scheme. Next year, the HWS application will be via the Single Application. There is no obligation for farmers to check and update their data, although this is strongly advised to be in the best position to make future claims.












# NFU Cymru Sustainable Farming Conference 2024

**AIC Cymru was pleased to attend the NFU Cymru Sustainable Conference where Welsh Government was called upon to ensure the Sustainable Farming Scheme (SFS) provides the same level of stability to farm businesses as the Basic Payment Scheme currently does. Sponsored by AIC Member Wynnstay, the conference was hosted on the farm of Rob Lewis and his family near the Elan Valley in early September.**

The event provided AIC Cymru with a valuable opportunity to discuss issues and concerns with farmers, and to engage in positive discussions with James Evans MS, Shadow Minister for Farming, Food and Rural Affairs.

NFU CYMRU

# Decision to maintain BPS welcomed

**AIC Cymru and the Welsh farming sector have welcomed the Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, Huw Irranca-Davies MS' decision to maintain the Basic Payment Scheme (BPS) for 2025.**

The announcement follows widespread concern over Welsh Government's SFS proposals earlier this year. However, AIC Cymru and farming unions are clear that the transition to future agricultural policy cannot advance unless the industry has confidence that the new schemes deliver the same level of stability to farm businesses, the rural communities and the supply chain that the BPS does at present. AIC Cymru believes it is vital that budget for BPS in 2025 is secured and enhanced to consider inflation over the past decade.

The announcement at this year's Royal Welsh Show that Sites of Special Scientific Interest (SSSIs) will now be eligible for the habitat management element of the Universal Baseline Payment is also welcome. It demonstrates that changes to the scheme may be possible so that it works on all farms.

A key omission from Welsh Government's consultation was any information on payments beyond a proposal for a payment rate which recognises the costs incurred, income forgone associated with scheme actions and an intention to consider "social value" within the payment methodology.

Within the consultation, Welsh Government stated that this will take time to get right given the variation in the values of "natural capital" benefits by type, location and time, which adds to the difficulty in defining a fair and proportionate approach.

Subsequently, Welsh Government has confirmed it will work with the Ministerial Roundtable to ensure that payments go beyond costs incurred and income forgone and include an element to reflect the social value or positive actions as a result of sustainable food production.



# AIC Cymru stakeholder engagement

**Members, policymakers, and industry stakeholders joined an AIC Cymru reception at the Royal Welsh Show on 22 July. The well-attended event brought the wider food and farming sector together with Welsh Government for productive conversations which support agriculture and food production in Wales and throughout the UK.**

The gathering provided a valuable opportunity to share AIC's priorities on food security and land use, trade, and sustainability data. Ahead of the reception, AIC also held constructive talks on areas of common interest with farming unions.




# Championing Welsh food




**AIC Cymru is pleased to support the NFU Cymru's campaign "Secure the Future of Welsh Food", which was launched during the third annual Welsh Farming Week in June. The campaign champions Welsh food and highlights the high levels of public support for Welsh food production.**

It seeks to bring the industry together and show the high level of backing for the food produced in Wales by the nation's farmers. Visit the NFU Cymru website for more information.



# Meet with AIC Cymru at the Winter Fair

**AIC Cymru will be attending the Winter Fair at the Royal Welsh Showground on 25 November.**

While AIC will not have a stand, we will be holding meetings with Welsh Government, Members and farming unions. Please get in touch with AIC Cymru Policy Manager Michael Muncey (michael.muncey@agindustries.org.uk) to arrange a meeting.



CAFC RWAS



Agricultural Industries Confederation Ltd
First Floor, Unit 4 The Forum,
Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

Tel: 01733 385230
Email: enquiries@agindustries.org.uk

RDP COMMS Design & Development by RDP

aic CYMRU agricultural industries confederation ®

Hydref/Gaeaf 24 | Rhifyn 06

# AIC Cymru

YN GWEITHIO I GEFNOGI **AMAETHYDDIAETH FODERN FASNACHOL A CHYNALIADWY**



## Croeso

**Annwyl Aelodau,**

**Croeso i rifyn hydref/gaeaf 2024 o gyfnodolyn AIC Cymru, sy'n cynnwys yr wybodaeth allweddol ddiweddaraf i chi ar y materion, polisïau a mewnwelediadau sy'n benodol i amaethyddiaeth yng Nghymru.**

Wrth i ni nesáu at ddiwedd 2024, byddwn yn parhau i weld dim llawer o eglurder o fewn polisi amaethyddol, amgylcheddol a newid hinsawdd Cymru.

Yn dilyn etholiad cyffredinol y DU yn yr haf, mae'r dirwedd wleidyddol wedi newid. Mae'r Blaid Lafur yn parhau i fod yn flaenllaw yng Nghymru, ond mae wynebau newydd yn eu lle, felly ni fu erioed fwy o angen i aelodau AIC ymgysylltu â'u Haelodau Seneddol lleol, gan rannu'r rôl hanfodol y mae'r diwydiant cyflenwi amaethyddiaeth yn ei chwarae yn yr economi wledig a'r effaith lluosydd economaidd mae'n ei chael. Cysylltwch i drafod hyn ymhellach.

Yn y rhifyn hwn, fe gewch y newyddion diweddaraf am newidiadau gwleidyddol yng Nghymru, datblygiadau polisi, digwyddiadau, a gweithgareddau AIC Cymru.



**Michael Muncey**
AIC Cymru Policy Manager

# Datblygiadau polisi diweddaraf yng Nghymru

**Newid fu thema gwleidyddiaeth Cymru. Tra bod y Blaid Lafur yn dal i fod yn brif rym yng Nghymru yn dilyn etholiad cyffredinol y DU, ymddiswyddodd y Prif Weinidog Vaughan Gething AS ar ôl pedwar mis yn y swydd, gydag Eluned Morgan AS yn cymryd ei le, Prif Weinidog benywaidd cyntaf Cymru.**

Mae Huw Irranca-Davies AS yn parhau i fod yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ond mae bellach hefyd yn Ddirprwy Brif Weinidog.

Mae gweithgarwch ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn parhau yn gyflym y tu ôl i'r llenni. Mae Huw Irranca-Davies AS yn cadeirio'r grŵp rhanddeiliaid bwrdd crwn, sydd bellach yn llai, ac mae AIC Cymru yn aelod ohono. Dylid cwblhau casglu tystiolaeth ar fodelu atafaelu carbon lle nad yw'r cyfleoedd yn canolbwyntio ar blannu coed yn unig, a'i chyflwyno gerbron y bwrdd crwn, ym mis Hydref.

Dylai canlyniad trafodaethau cyllideb amaethyddiaeth Cymru gyda llywodraeth newydd San Steffan fod yn hysbys erbyn mis Rhagfyr, sy'n golygu ein bod yn nesáu at gyfnod tyngedfennol o ran beth yw'r datblygiadau newydd yn y cynlluniau, graddau'r camau gweithredu cyffredinol, a'r hyn y gallai undebau'r ffermwyr ei dderbyn unwaith y bydd pecyn cyllideb ariannol o ran sut y bydd y polisi hwn yn cael ei ariannu yn hysbys.

Dim ond 2% yw'r dyraniad amaethyddiaeth o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae hyn i bob pwrpas wedi'i rewi ers i'r DU ymadael â'r UE o ystyried ffigurau chwyddiant diweddar, a dylai'r gyllideb fod tua £500 miliwn.


*Parhad ar dudalen 2*

Mewn datganiad ysgrifenedig i'r Senedd ar 20 Medi, dywedodd Huw Irranca-Davies AS: "Yn ystod toriad yr haf, mae swyddogion a minnau wedi bod yn gweithio gyda bwrdd crwn y Gweinidog a'r Panel Atafaelu Carbon, a thrwy grŵp y swyddogion, i adolygu dyluniad y cynllun.

"Mae'r grwpiau wedi cyfarfod 19 o weithiau hyd yma o fewn cyfnod byr o amser. Mae ffocws y grwpiau hyd yma wedi bod ar adolygu'r holl gamau gweithredu cyffredinol a rheolau allweddol y cynllun, gan ystyried adborth a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad diweddaraf.

"Gyda chefnogaeth y bwrdd crwn, rydym eisoes wedi cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad a'r safbwynt diwygiedig ar daliadau ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o fewn y Taliad Sylfaenol Cyffredinol. Mae datblygiad y cynnig SoDdGA yn enghraifft dda o sut yr ydym yn gweithio'n effeithiol fel grŵp i ddatblygu safbwynt diwygiedig.

"Rwy'n disgwyl dychwelyd i'r Senedd yn ddiweddarach eleni gyda diweddariad manylach. Hoffwn ddiolch i'r holl randdeiliaid am eu hamser yn cyfrannu at y broses dros yr haf, ac ymlaen i'r misoedd nesaf."



# Cadarnhau data'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cymru

**Dechreuodd Llywodraeth Cymru ei hymarfer "cadarnhau data" ar 22 Gorffennaf a bydd yn rhedeg tan 6 Rhagfyr. Mae hyn yn galluogi ffermwyr i ddiweddaru'r wybodaeth fapio a gedwir. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r cynefinoedd a'r ardaloedd coed ar y fferm, cyn y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei gyflwyno yn 2026, pan fydd y gofyniad am 10% o orchudd coed ar y tir yn cael ei gyflwyno.**

Mae hefyd yn berthnasol i Gynllun Cynefin Cymru, a fydd yn gweithredu eto yn 2025 fel cynllun dros dro. Y flwyddyn nesaf, bydd y cais Cynllun Cynefin Cymru yn cael ei wneud trwy'r Cais Sengl. Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar ffermwyr i wirio a diweddaru eu data, er y cynghorir yn gryf iddynt wneud hynny er mwyn gallu bod yn y sefyllfa orau i wneud hawliadau yn y dyfodol.












# Cynhadledd Ffermio Cynaliadwy NFU Cymru 2024

**Roedd AIC Cymru yn falch o fynychu Cynhadledd Ffermio Cynaliadwy NFU Cymru, lle galwyd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn rhoi'r un lefel o sefydlogrwydd i fusnesau fferm ag y mae Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ei wneud ar hyn o bryd. Cynhaliwyd y gynhadledd, a noddwyd gan Wynnstay, sy'n aelod o AIC, ar fferm Rob Lewis a'i deulu ger Cwm Elan ddechrau mis Medi.**

Roedd y digwyddiad yn gyfle gwerthfawr i AIC Cymru drafod materion a phryderon gyda ffermwyr, ac i gymryd rhan mewn trafodaethau cadarnhaol gyda James Evans AS, Gweinidog Cabinet yr Wrthblaid dros Ffermio, Bwyd a Materion Gwledig.

# Croesewir penderfyniad i gynnal Cynllun y Taliad Sylfaenol

**Mae AIC Cymru a sector ffermio Cymru wedi croesawu penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS, i gynnal Cynllun y Taliad Sylfaenol ar gyfer 2025.**

Daw'r cyhoeddiad yn dilyn pryder eang ynghylch cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn gynharach eleni. Fodd bynnag, mae AIC Cymru ac undebau'r ffermwyr yn bendant na all y newid i bolisi amaethyddol yn y dyfodol symud ymlaen oni bai fod gan y diwydiant hyder bod y cynlluniau newydd yn sicrhau'r un lefel o sefydlogrwydd i fusnesau fferm, y cymunedau gwledig a'r gadwyn gyflenwi fel ag y mae Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae AIC Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol bod cyllideb Cynllun y Taliad Sylfaenol 2025 yn cael ei sicrhau a'i gwella er mwyn ystyried chwyddiant dros y degawd diwethaf.

Croesewir hefyd y cyhoeddiad yn Sioe Frenhinol Cymru eleni y bydd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) bellach yn gymwys ar gyfer elfen rheoli cynefinoedd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol. Mae'n dangos y gall newidiadau i'r cynllun fod yn bosibl fel ei fod yn gweithio ar bob fferm.

Un hepgoriad allweddol nad oedd wedi'i gynnwys yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru oedd unrhyw wybodaeth am daliadau y tu hwnt i gynnig am gyfradd daliadau a oedd yn cydnabod y costau a ysgwyddwyd, yr incwm a ildiwyd sy'n gysylltiedig â chamau gweithredu'r cynllun, a bwriad i ystyried "gwerth cymdeithasol" o fewn methodoleg y taliadau.

Yn yr ymgynghoriad, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd yn cymryd amser i hyn fod yn gywir o ystyried yr amrywiaeth yng ngwerthoedd manteision "cyfalaf naturiol" yn ôl math, lleoliad ac amser, sy'n ychwanegu at yr anhawster wrth ddiffinio dull teg a chymesur.

Yn dilyn hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn gweithio gyda bwrdd crwn y Gweinidog i sicrhau bod taliadau'n mynd y tu hwnt i'r costau a ysgwyddwyd a'r incwm a ildiwyd, a bydd yn cynnwys elfen i adlewyrchu'r gwerth cymdeithasol neu'r camau gweithredu cadarnhaol o ganlyniad i gynhyrchu bwyd cynaliadwy.



# Digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid AIC Cymru

**Ymunodd aelodau, llunwyr polisi a rhanddeiliaid y diwydiant â derbyniad AIC Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru ar 22 Gorffennaf. Daeth nifer dda o bobl i'r digwyddiad, gan ddod â'r sector bwyd a ffermio ehangach ynghyd â Llywodraeth Cymru ar gyfer sgyrsiau cynhyrchiol sy'n cefnogi amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd yng Nghymru a ledled y DU.**

Roedd y derbyniad yn gyfle gwerthfawr i rannu blaenoriaethau AIC ar ddiogelwch bwyd a data defnydd tir, masnach a chynaliadwyedd. Cyn y derbyniad, cynhaliodd AIC sgyrsiau adeiladol hefyd ar feysydd o ddiddordeb cyffredin gydag undebau'r ffermwyr.




# Hyrwyddo bwyd o Gymru




**Mae AIC Cymru yn falch o gefnogi ymgyrch "Diogelu Dyfodol Bwyd Cymru" NFU Cymru, a lansiwyd yn ystod Wythnos Ffermio Cymru, digwyddiad blynyddol a gynhaliwyd am y trydydd tro ym mis Mehefin. Mae'r ymgyrch yn hyrwyddo bwyd o Gymru ac yn amlygu'r lefelau uchel o gefnogaeth gyhoeddus i gynhyrchu bwyd o Gymru.**

Mae'n ceisio dod â'r diwydiant ynghyd a dangos y lefel uchel o gefnogaeth i'r bwyd a gynhyrchir yng Nghymru gan ffermwyr y genedl. Ewch i wefan NFU Cymru am fwy o wybodaeth.



# Cyfarfod ag AIC Cymru yn y ffair aeaf

**Bydd AIC Cymru yn mynychu'r ffair aeaf ar faes Sioe Frenhinol Cymru ar 25 Tachwedd.**

Er na fydd gan AIC stondin, byddwn yn cynnal cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru, aelodau ac undebau'r ffermwyr. Cysylltwch â Michael Muncey, Rheolwr Polisi AIC Cymru (michael.muncey@agindustries.org.uk) i drefnu cyfarfod.



CAFC RWAS